

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Rhagfyr 20:** Cynhelir Gwasanaeth Nadolig am 10.00 o'r gloch yng nofal y plant a'r ieuencid a'r Gweinidog. Bydd yr oedfa am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog hefyd.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Rhagfyr 20:** Bydd yr oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal rhai o'r aelodau. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul am 5.00 o'r gloch. Bydd parti Nadolig yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa honno.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Rhagfyr 20:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Rhagfyr 20:** Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, ac Oedfa Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch. Bydd Te i bawb yn y festri ar ôl yr oedfa.

### CARMEL

**Dydd Llun, Rhagfyr 14:** Te Bach yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.  
**Nos Wener, Rhagfyr 18:** Cynhelir 'Dwylo Pysur' am 6.30 o'r gloch.  
**Dydd Sul, Rhagfyr 20:** Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Bydd Gwasanaeth Nadolig am 5.00 o'r gloch.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Rhagfyr 13

2.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

### Rhagfyr 20

10.00 a.m. - Gwasanaeth Nadolig yng ngofal y plant a'r ieuencid, a'r Gweinidog  
2.00 p.m. - Y Gweinidog

## CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Rhagfyr 18:** Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

## Oedfaon Nadolig yr Ysgolion Sul

Croeso cynnes i chi ymuno yn nath-liadau Nadolig yr Ysgolion Sul y Sul nesaf, Rhagfyr 20.

10.00 o'r gloch  
Deiniolen

2.00 o'r gloch  
Talybont

5.00 o'r gloch  
Llanllechid

5.00 o'r gloch  
Llanberis

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wrthi'n brysur ers wythnosau yn paratoi ar gyfer yr oedfaon hyn.

## Y mis nesaf - Llanberis

### Rhagfyr 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
4.00 p.m. - Oedfa Garolau Undebol yn Capel Coch

### Rhagfyr 20

10.00 a.m. - Y Parchg Gwynfor Williams  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Gwasanaeth Nadolig yng ngofal yr Ysgol Sul

עֵמָנוּךְ אֱלֹהֵינוּ

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 662: Dydd Sul, 13 Rhagfyr, 2015

## Duw gyda ni

angof, ac mae'n hawdd iawn deall pam fod hynny.

Buan iawn y daw'r Nadolig, ac fe rydd yr ŵyl honno gyfle i ni ein hatgoffa ein hunain o'r newydd fod Duw gyda ni yng nghanol y cyfan sy'n digwydd i ni o ddydd i ddydd. Mor rhwydd ydyw i ni anghofio hynny pan ddaw'r gwynt a'r glaw gaeafol i'n poeni. Gallwn ddiolch am ofal a daioni Duw pan fo'r haul yn gwenu a'r byd o'n plaid. Ond mor hawdd yw colli golwg ar y gofal a'r daioni hwnnw pan fo pethau'n mynd o chwith. Mae'r Nadolig, fodd bynnag, yn ein sicrhau fod Duw gyda ni bob amser. Oherwydd onid dathlu dyfodiad Iesu'r Emaniwel i'r byd a wnawn? Ystyr yr enw 'Emaniwel' ydi 'Duw gyda ni'. Dangosodd yr angel i Joseff mai plentyn Mair oedd yr un a fyddai gyda'i bobl wrth 'eu gwaredu oddi wrth eu pechodau'. Yn ei aberth trosom ar groes Calfaria y gwelwn fwyaf eglur fod Iesu o'n plaid. Ond mae'r enw hwn a roddwyd iddo hefyd yn dangos i ni fod Iesu gyda ni, ac felly fod Duw gyda ni ym mhob dim a thrwy bob eiliad.

Yn y glaw ac yn yr hindda, mae Duw gyda ni. Yn haul y dydd ac yn nhywyll nos, mae Duw gyda ni. Cydiwn o'r newydd yn yr addewid honno dros ŵyl y Nadolig eleni. Nid ydym ar ein pen ein hunain; nid ydym wedi ein gadael yn amddifad o gysur a gobaith. Y mae Duw gyda ni, beth bynnag a wynebwn a beth bynnag ein hamgylchiadau. Yr Emaniwel ydyw.

'Glaw, glaw, dim byd ond glaw, mae'r dilyw wedi dod.' Dyna ddywed Caryl Parri Jones yn un o'i chaneuon hyfryd sy'n adrodd stori Arch Noa. 'Dyw hi ddim cweit yn ddilyw yma heddiw (pnawn Sadwrn) ond mae'n glawio'n ddi-baid ers oriau. Mi fues i mewn gêm bêl droed y bore 'ma yng nghanol y glaw mawr. Wel, darn bach o bêl droed beth bynnag, gan fod y cyfan drosodd o fewn rhyw ddeng munud. Bu raid rhoi'r gorau i'r chwarae am ei bod mor anodd cael y bêl o'r pyllau dwr oedd ym mhobman ar y cae.

Ia, dim byd ond glaw yw ein hanes ar hyn o bryd. Gwelsom luniau llifogydd, yn arbennig yn Cumbria yng ngogledd orllewin Lloegr, a chydymdeimlwn â phawb sy'n dioddef yn y fan honno, heb anghofio hefyd bobl yn nes atom o lawer (yn nyffryn Conwy a mannau eraill) a ddioddefodd oherwydd y dŵr mawr yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Ia, dim byd ond glaw ers hydoedd. Does ond gobeithio y bydd y glaw yn cilio'n fuan ac na welwn ni lifogydd a difrod pellach dros y Nadolig. Ond yng nghanol y glaw, mor hawdd yw anghofio ei bod yn dywydd gwahanol iawn arnom yn gymharol ddiweddar. Pryd oedd hi deudwch? Tua chanol mis Hydref, os cofiaf yn iawn, mi gawsom dywydd arbennig o dda. Doedd hi'n sych braf ac yn anarferol o gynnes mor ddiweddar â diwedd y mis hwnnw? Ond unwaith y daeth y glaw, aeth hindda'r wythnosau blaenorol yn

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Capel Coch am 4.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr oedfa Gymun am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Diolch i bawb sy'n arwain yr addoliad yn ein plith heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

## Oedfa Garolau

Cynhelir Gwasanaeth Carolau Undebol **YN CAPEL COCH** am 4.00 o'r gloch **HENO** (nid yn Eglwys Sant Padarn fel y cyhoeddwyd yn wreiddiol).

Newidiwyd y lleoliad ar gais aelodau'r Eglwys, a byddwn yn falch o groesawu aelodau eglwysi eraill y pentref i Gapel Coch unwaith eto.

Bydd yr oedfa dan arweiniad y Parchg Carol Roberts, a chyflwynir darlenniadau gan aelodau'r eglwysi.

Mae croeso cynnes i bawb i'r oedfa.



## Carolau Nadolig

Roedd Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch nos Fawrth yng ngofal y Gweinidog. Diolch i

Bethan Holding am ei gwasanaeth wrth yr organ.

Cyflwynwyd neges y Nadolig y tro hwn trwy gyfres o ddarlenniadau a charolau a oedd yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â'r stampiau Nadolig a gyhoeddwyd gan y Post Brenhinol eleni.

Cynlluniwyd y stampiau hyn gan artist o'r David Homes, a dyma'r tro cyntaf ers 2011 i'r Post gynhyrchu cyfres newydd o

stampiau sy'n darlunio Stori'r Geni. Mae'n braf iawn gweld eu bod ar gael eleni. Defnyddiwch nhw ar eich cardiau Nadolig. Cofiwch ofyn amdanyn nhw wrth brynu eich stampiau.

Dros y blynyddoedd diwethaf cafwyd cryn dipyn o gwyno pan nad oedd y Post yn cynhyrchu stampiau'n dangos Stori'r Geni. Gallwn ddangos ein bod eisieu gweld yr arfer hwn yn parhau trwy eu defnyddio, a hyd yn oed trwy adael i Reolwyr y Post wybod ein bod yn falch o weld y stampiau hyn eleni.

Am rai blynyddoedd, bu'r Post yn arfer cynhyrchu stampiau Stori'r Geni bob yn ail flwyddyn. Mae modd i ni bwysu am i'r arfer hwnnw barhau rhag i ni weld pedair blynedd arall, neu fwy, yn mynd heibio cyn y cawn stampiau o'r fath eto ar gyfer y Nadolig.

## Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2015 yn cau ddydd Sul Rhagfyr 27. Gwerthfawrogi pob ymdrech i gwblhau cyfraniadau 2015 mewn da bryd erbyn y dyddiad hwnnw.

## Cyfraniadau Ariannol

Bydd trysoryddion pob un o eglwysi'r Ofalaeth yn falch o dderbyn cyfraniadau yr aelodau am 2015 mewn da bryd erbyn diwedd y flwyddyn.

Diolch am bob cyfraniad a wnaed hyd yma, ac os oes cyfraniadau eto i'w gwneud apeliwn arnoch i'w gwneud cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso gwaith trysoryddion ac ysgrifenyddion ariannol yr eglwysi.

## Te Bach

Bnawn yfory, ddydd Llun, Rhagfyr 14, cynhelir y 'Te Bach' yn festri Carmel, Llanllechid rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

## CIC

Aeth criw CIC Llanberis gyda chriwiau CIC Llanrug a Chaersalem Caernarfon i'r Ganolfan Bowlio 10 yn Glasfryn, Y Ffôr nos Wener. Diolch i Andrew am drefnu'r cyfan. Diolch hefyd i'r rhai a ddaeth yn ofo ni i ofalu am y deugain o blant a phobl ifanc: Dafydd, Gwenno, Susan, Mared a Menna.

Aeth popeth yn hwylus, er i ni gael peth oedi cyn cychwyn oherwydd trafferth i'r bws. Ond diolch byth, roedd hynny cyn i'r bws gyrraedd atom o gwbl, ac nid wedi i ni gychwyn ar y daith. Cafwyd bws arall, ac aeth poeth yn ddidrafferth wedyn.

Cafodd pawb hwyl ar y bowlio. Roedd rhai wedi hen arfer ac eraill yn cymryd rhan o bosibl am y tro cyntaf. Ond un o fanteision y gêm hon yw bod modd i bawb gymryd rhan, pa mor amhrofiadol bynnag ydyw.

Cyflwynwyd gwobrau i'r ddau a gafodd y sgôr uchaf sef, Thomas Hughes ac Iolo Llywelyn Roberts, Llanberis. Rhoddwyd dwy wobwr gysur hefyd i'r ddau â'r sgôr isaf, a doedd dim syndod fod y ddau hynny yn yr unig grŵp a chwaraeai heb y waliau o boptu'r lonydd. Y ddau oedd ...

## Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn y flwyddyn newydd, tua diwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror.

Awgrymir nos Fawrth, Ionawr 26 neu nos Fercher, Ionawr 27 fel dyddiadau posibl. Os yw'r naill neu'r llall yn amlwg yn anhwylyd i un neu ragor o'r eglwysi, rhwch wybod i'r Gweinidog os gwelwch yn dda.

## Cymun y Nadolig

Cynhelir Gwasanaeth Cymun fore dydd Nadolig yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Mae croeso i bawb ymuno â ni ddatlu Geni Crist yn yr oedfa hon.